Llwybr 2 – Cwestiynau Ansoddol

Amcanion a Chanlyniadau'r Prosiect

1. Pa rai o themâu Llwybr 2 y bydd y prosiect yn cyd-fynd â nhw? (Aml-ddewis)

2. Sut y bydd y prosiect yn mynd i'r afael â mater neu flaenoriaeth i'r sector o dan y thema/themâu a nodwyd uchod, a sut y bydd yn ychwanegu gwerth at eich sefydliadau a'r sector(au)? *(2500 nodau)*
Beth yw'r mater/blaenoriaeth, a pham mae'n bwysig? Pa effaith y bydd y prosiect yn ei chael, ac ym mha ffordd yn benodol y bydd y prosiect a'r canlyniadau'n gwneud gwahaniaeth?

3. Disgrifiwch ganlyniadau arfaethedig allbwn eich prosiect. *(2500 nodau)*
Sut y byddwch yn sicrhau ei fod yn weladwy, o safon uchel, yn fesuradwy ac o werth i sefydliadau eraill a/neu'r sector(au) yn ehangach?

4. Sut a pham rydych wedi dewis y partneriaid – partneriaid rhyngwladol a phartneriaid yng Nghymru (lle bo'n berthnasol)? *(2500 nodau)*
Beth fydd pob partner yn ei gyfrannu at y prosiect? Sut y bydd cyfrifoldebau'n cael eu rhannu?

5. Sut y byddwch yn rheoli'r prosiect? *(2500 nodau)*
Sut y bydd eich sefydliad/consortiwm yn rheoli'r gwahanol agweddau ar y prosiect a'i gyfnodau, o'i gynllunio a'i baratoi i reoli'r gwaith cyflawni gweithredol, cyfathrebu a chydweithio â'r partneriaid, rheoli arian, sicrhau cydymffurfiaeth ariannol, rheoli risg, monitro, cadw cofnodion a chyflwyno adroddiadau? Pa staff sydd/a fydd ar gael i wneud hyn?

6. Sut y byddwch yn sicrhau bod y prosiect yn gynhwysol ac yn hygyrch? *(2500 nodau)*
Sut y bydd y prosiect yn helpu pobl ag anableddau, pobl ag anghenion dysgu ychwanegol, y rhai o gefndiroedd difreintiedig a'r rhai sy'n perthyn i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i ddysgu/ymgysylltu/cymryd rhan? Sut y byddwch yn sicrhau bod allbwn y prosiect a'r gweithgareddau lledaenu ac adnoddau'n gynhwysol ac yn hygyrch ac yn galluogi sefydliadau ac unigolion â phrofiadau gwahanol ac o gefndiroedd gwahanol i elwa?

7. Sut y byddwch yn monitro ac yn gwerthuso'r prosiect? *(2500 nodau)*
Sut y byddwch yn monitro'r tasgau sy'n cael eu cyflawni? Sut y byddwch yn casglu adborth gan y rhai sy'n cymryd rhan? Sut y byddwch yn asesu ansawdd allbwn y prosiect? Sut y byddwch yn gwerthuso effaith a buddion y prosiect?

Gweithgareddau'r Prosiect

1. Gweithgareddau symudedd

- Manylwch ar y gweithgareddau symudedd rydych yn eu cynllunio a sut y bydd y rhain yn cyfrannu at y prosiect a chreu allbwn. Os nad ydych yn cynllunio gwneud unrhyw symudedd corfforol, esboniwch pam, a sut byddwch yn datblygu partneriaeth(au) rhywngyladol effeithiol drwy ffyrdd eraill. *(2500 nodau)*
- Sut y byddwch yn dewis pwy sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau symudedd?
- Os ydych chi'n cynllunio symudedd ar gyfer dysgwyr:
    - Esboniwch eich gweithdrefnau diogelu a sut y byddwch yn diogelu/gofalu am y rhai sy'n cymryd rhan. *(2500 nodau)*
    - Sut y byddwch yn sicrhau bod pobl ag anableddau, pobl ag anghenion dysgu ychwanegol, y rhai o gefndiroedd difreintiedig a'r rhai sy'n perthyn i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn cael eu cefnogi'n llawn i gymryd rhan? *(2500 nodau)*

2. Rheoli a gweithredu'r prosiect

- Rhowch wybodaeth am y gweithgareddau rydych yn eu cynllunio a sut byddant yn cyfrannu at y prosiect ac at greu allbwn y prosiect. *(2500 nodau)*
- Darparwch ddadansoddiad o'r costau a chyfianwhad o'r gyllid y gofynnwyd amdano o dan y categori hwn. *(2500 nodau)*

3. Costau staff

- Darparwch esboniad clir, dadansoddiad costau a chyfiawnhad dros y cyllid y gofynnir amdano o dan y categori hwn. *(2500 nodau)*

4. Costau lledaenu

- Rhowch wybodaeth am y gweithgareddau lledaenu rydych yn cynllunio, a beth yw'r perthnasedd i'r prosect, y gynulleidfa arfaethedig ac i'r sector ehangach. *(2500 nodau)*
- Darparwch esboniad clir, dadansoddiad costau a chyfiawnhad dros y cyllid y gofynnir amdano o dan y categori hwn. *(2500 nodau)*

5. Costau cyfieithu

- Darparwch esboniad clir, dadansoddiad costau a chyfiawnhad dros y cyllid y gofynnir amdano o dan y categori hwn. *(2500 nodau)*